**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd ar nos Lun, Rhagfyr 4ydd, 2023 y 13eg am 7.30 y.h. yn Neuadd y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans (yn gweithredu fel Clerc dros dro), Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Tim Rosa, Dafydd Williams, Wenda Williams.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cyngor Sir).

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd** Diolchwyd i'r Cynghorydd Nesta Roberts am ei llafur yn didoli a rhoi trefn ar lawer o hen ddogfennau'r Cyngor.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Tachwedd 13eg, 2023**.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

i) Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau

a) Ni dderbyniwyd ymateb ynghylch y bin sbwriel sydd wedi ei osod o flaen yr hysbysfwrdd wrth y Gegin Fawr, a phenderfynwyd gyrru yn ei gylch eto.

b) Cafwyd ateb gan Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd ynghylch cyflwr llwybr rhif 123 Aberdaron, sydd yn rhedeg ar dir Ymddiriedolaeth Genedlaethol ger fferm Carreg. Eglurwyd yn ystod y cyfarfod mai'r llwybr i'r chwith o fferm Carreg tua'r maes parcio a olygid, a'i fod mewn cyflwr drwg. Penderfynwyd cysylltu eto.

c) Derbyniwyd neges o Gyngor Gwynedd y byddai'r llwybr o Gwern Saer i Tan y Muriau wedi cael ei glirio erbyn diwedd yr wythnos.

ch) Cafwyd ateb gan Gyngor Gwynedd ynghylch y coed o flaen Tŷ Cernyw, y Rhiw yn adrodd fod archwiliad wedi ei wneud o'r safle ac nad oes dim diffyg gweithredadwy i'w weld yma ar hyn o bryd.

d) Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd yn gofyn am ychwaneg o wybodaeth ynghylch y galw am arwyddion rheoli cyflymder yn y Rhiw. Addawodd y Cynghorydd Emlyn Jones egluro'r sefyllfa.

dd) Adroddwyd fod llythyr wedi ei yrru at Mr. John Jones, Cyndyn i ddiolch iddo am ei gymwynas yn trwsio giatiau'r Eglwys Newydd yn ddi-dâl.

e) Yn ateb i sylw fod cryn ddifrod wedi ei wneud i'r lôn wrth drwsio pibelli dŵr yn y Sarn, eglurwyd fod mater yr wyneb wedi suddo wedi ei gyfleu i'r contractwyr, a bod y gwaith erbyn hyn wedi cael ei gywiro.

f) I'r cais am wybodaeth ynghylch yr arwyddion hysbysebu a chonau traffig parhaol ym mhentref Aberdaron derbyniwyd gohebiaeth yn egluro mai'r Uned Gwaith Stryd yn yr Adran Amgylchedd sy'n trwyddedu'r hawl i osod hysbysfyrddau ar y briffordd, ac y cysylltir â'r Uned i holi gan bwy y mae trwyddedau dilys. Eglurwyd na ddylai unrhyw fusnes gamddefnyddio conau traffig i wahardd parcio am gyfnodau hir.

ff) Adroddodd y Cynghorydd Jaci Jones am ddatblygiadau Cynllun GwyrddNi Pen Llŷn a gynhaliodd noson yn Neuadd Sarn Meillteyrn yn ddiweddar.

g) Adroddodd y Cynghorydd Dewi Evans am gyfarfod diweddar a fynychodd o AHNE Llŷn.

ii) Materion yr Eglwys Newydd

Cynhelir noson o ganu carolau yng Nghanolfan Deunant i godi arian at Eglwys Newydd ar Ragfyr 11.

Er gohebu cyson gyda'r adeiladwyr a'r yswirwyr, siom fu gweld na ddechreuwyd ar waith atgyweirio'r Eglwys. Yn ôl y contractwyr cael sgaffaldiau am brisiau rhesymol yw'r prif anhawster ar hyn o bryd.

iii) Swydd y clerc

Eglurodd y Cynghorydd Dewi Evans na fedrai ddal i wneud gwaith gweinyddol y clerc am gyfnod amhenodol, ac y byddai raid cael system i rannu'r baich oni cheid clerc newydd. Penderfynwyd hysbysebu'r swydd eto, a gofynnwyd i bawb feddwl am bobl gymwys a allai ymgymryd â'r gwaith.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i) Penderfynwyd trafod Praesept 2024/25 yn y cyfarfod nesaf. Cyflwynodd y Cynghorydd Nesta Roberts lif arian ar ei gyfer.

ii) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (a sylwadau IRPW ar yr un pwnc). Er gwybodaeth.

iii) Cytunwyd i gefnogi cais a dderbyniwyd i gryfhau safle'r Gymraeg yn yr ysgolion drwy eu gwneud yn rhai Cymraeg penodedig, ac i yrru llythyr at Bennaeth yr Adran Addysg i'r perwyl hwnnw.

iv) Cytunwyd i fod yn rhan o gynllun 'Perthyn i Lŷn' sy'n dal y dylai Ardal Aberdaron gael ei hystyried yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)' ac i alw ar y llywodraeth am fwy o reolaeth ac adnoddau i wneud penderfyniadau lleol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

v) Rhannwyd gohebiaeth ddiweddar ynghylch rhimyn gwellt o flaen Bodarfor a phostyn derw sydd wedi ei osod yno. Nodwyd, unwaith yn rhagor, mai materion i'r Cyngor Sir yw'r rhain.

**6) <u>Cynllunio</u>**

C23/0908/30/DT - Cais i addasu rhan o swyddfa a storfa bresennol i ystafell fyw / gardd gyda chawod a decin allanol, Yr Hen Reithordy, Y Rhiw LL53 8AD. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad, ond roedd am i'r Cyngor Sir ystyried addasrwydd decin mewn lleoliad o'r fath.

**7) <u>Gwaredu hen ddogfennau'r Cyngor</u>**

Adroddodd y Cynghorydd Nesta Roberts ei bod wedi bod yn mynd drwy hen ddogfennau'r Cyngor, a chytunwyd i'w chais i gael gwared ar hen ddogfennau nad oedd o unrhyw bwys bellach.

**8) <u>Y Fynwent</u>**

Adroddodd y Cynghorydd Nesta Roberts ei bod wrthi'n gwneud arolwg o gerrig beddi a mannau gwag mynwent yr Eglwys Newydd, a'i bod yn diweddaru'r wybodaeth sydd ar glawr, a chysylltu â'r ymgymerwyr. Diolchwyd iddi am yr holl waith y mae wedi ei gyflawni.

**9) <u>Taliadau</u>**

Gerddi Gwell am dorri gwellt Mynwent Eglwys Newydd £2,100
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O Tachwedd)
Ffioedd HSBC: £5.80
Neuadd y Rhiw £30 (dau gyfarfod)
Capel Bethesda £200
Torch y Lleng Brydeinig £25
ICO (diogelwch gwefan) £35
Owen Vaughan am ofalu am Eglwys Newydd £160

**10) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i) Soniwyd fod pant yn datblygu lle mae'r ochr yn rhoi ger Glangors (rhwng Meillionydd Bach a Felin Uchaf).

ii) Cafwyd damwain ddiweddar ar y ffordd fawr rhwng Bodwrdda a Pen-bryn (Rhoshirwaun). Awgrymwyd y dylid holi ynghylch lledu'r darn o lôn gul sydd rhwng Rhoshirwaun ag Aberdaron.

iii) Adroddwyd fod dŵr yn casglu ar y ffordd mewn dau le rhwng allt Methlem â thŷ Bryn Eiddon (ger y fynedfa i Borthor), a'i bod yn beryg bywyd pan fydd yn rhewi. Mae un o'r mannau ar dro mawr. Awgrymwyd y dylid agor y ffosydd.

iv) Nodwyd fod rhwystr ar y llwybr heibio i Tŷ Tan Fron.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Lun, Ionawr 8fed yng Nghanolfan Deunant.**